**Rhif:** WG41633

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

# Diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020

**Camau i'w cymryd**

Dim

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Llywodraethu ysgolion, trefniadaeth ysgolion a derbyniadau i ysgolion
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru

E-bost: SMED2@llyw.cymru
Ffôn: 0300 025 0355

@WG_Education

Facebook/EducationWales

**Copïau ychwanegol**

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/ymgyngoriadau

Mae copïau print bras, Braille ac ieithoedd amgen ar gael drwy ofyn amdanynt.

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i’r Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (“y Rheoliadau Llywodraethu”) a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (“y Rheoliadau Ffedereiddio”). Mae’r newidiadau yn gwneud y canlynol:

- tynnu'r meini prawf anghymwyso rhag bod yn llywodraethwr ysgol os bydd person yn agored i gael ei gadw’n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- caniatáu i gofnodion cyrff llywodraethu gael eu cadw yn electronig;
- dweud yn glir bod opsiwn i gyrff llywodraethu gyfarfod o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb; a
- diwygio’r Gorchymyn a'r Ddeddf anghymwyso cyfarwyddwyr cwmnïau, sy'n anghymwyso ymddiriedolwyr elusennau yn unol â gweddill y DU.

Yn sgil natur y newidiadau arfaethedig a chyfyngiadau o ran amser ac adnoddau eleni o ganlyniad i’r pandemig Covid-19, cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o chwe wythnos.

Mae’r ddogfen hon yn darparu crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law ac yn cadarnhau’r canlyniad.

## Crynodeb o’r ymatebion

Ymatebodd 127 o bobl i’r ymgynghoriad. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd am roi o'u hamser i gyflwyno eu barn. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

Roedd cefnogaeth eang i'r holl newidiadau arfaethedig. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod. Noder bod y canrannau'n ymwneud â nifer y bobl a ymatebodd i bob cwestiwn, yn hytrach na chyfanswm y nifer a ymatebodd i'r ymgynghoriad:

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y meini prawf anghymwyso yn ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983?**

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 110 | 2 | 9 | 121 |
| 91% | 2% | 7% | 100% |

Daeth y sylwadau canlynol i law:

Teimlai un ymatebydd ei bod yn aneglur beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn glir os oedd yn debygol y byddai achosion eithriadol na sut i ymdrin â nhw.

Dywedodd un ymatebydd bod yn rhaid dweud yn glir nad yw’n briodol nac yn ddiogel i’r ysgol na’r unigolyn barhau fel llywodraethwr gweithredol os yw iechyd meddwl yr unigolyn ar y pryd yn effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau doeth.

Gofynnodd un ymatebydd am eglurder os oedd hyn yn cyfeirio'n gyffredinol at iechyd meddwl gwael, neu yn benodol at gadw'n gaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac awgrymodd un arall y byddai hyfforddiant i gyrff llywodraethu ar faterion iechyd meddwl yn ddefnyddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r diwygiad i'r Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) yn tynnu'r ddarpariaeth ynghylch anghymwyso rhag bod yn llywodraethwr ar sail iechyd meddwl. Mae hyn yn gyson â Deddf Iechyd Meddwl (Gwahaniaethu) 2013 sydd â'r bwriad o ddiogelu rhag gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl a helpu i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl.

Mae'r Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir yn nodi o dan ba amodau y caniateir i lywodraethwr gael ei ddiswyddo neu ei atal o'i swydd ac maent yn gymwys i bob llywodraethwr gan ddibynnu ar gan bwy y cawsant eu hethol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod llywodraethwyr ysgol yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.

**Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Gorchymyn a'r Ddeddf anghymwyso cyfarwyddwyr cwmnïau, sy'n anghymwyso ymddiriedolwyr elusennau, gan gysoni rheoliadau Cymru â deddfwriaeth ar draws y DU**?

| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 107 | 1 | 9 | 117 |
| 91% | 1% | 8% | 100% |

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Er bod un ymatebydd yn pryderu nad oedd y rheoliadau'n gyfredol, nid oedd unrhyw sylwadau anffafriol ar y cynnig. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005 a Rheoliadau Ffedereiddio 2014 i adlewyrchu'r newid hwn.

**Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gofnodion gael eu cadw'n electronig? Mae 'yn electronig' yn y cyd-destun hwn yn golygu gwneud a chadarnhau penderfyniadau drwy e-bost, neu adnoddau rhannu ffeiliau eraill megis Microsoft Teams, sy'n cael eu cadw yn ddiogel at ddibenion archwilio.**

| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 119 | 0 | 1 | 120 |
| 99% | 0% | 1% | 100% |

Daeth y sylwadau canlynol i law:

Cytunodd bron pob un o'r ymatebwyr i'r newid hwn gyda llawer yn dweud eu bod wedi cyflwyno gweithdrefnau tebyg er mwyn gwneud penderfyniadau angenrheidiol yn ystod

pandemig Covid-19. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid cael opsiwn i gadw cofnodion ysgrifenedig a holwyd am ba hyd y dylid cadw'r rhain.

Roedd un ymatebydd yn pryderu am ddefnyddio negeseuon e-bost fel tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu ysgolion gadw cofnodion yn electronig os yw hyn yn addas i'w hanghenion. Daw hyn â'r Rheoliadau yn unol ag arfer cyffredin ac, ar yr amod bod offer a meddalwedd addas yn cael eu defnyddio, ni ddylent gyflwyno unrhyw effeithiau andwyol ychwanegol ar ddiogelu data. Nid oes dim i atal cyrff llywodraethu rhag cadw cofnodion papur.

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion sicrhau bod trywydd archwilio addas o bob penderfyniad yn cael ei gadw. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw cofnodion ar gael ar ei gwefan, a gall awdurdodau lleol gynghori cyrff llywodraethu ar bolisïau lleol penodol.

**Cwestiwn 4 - A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal drwy fynediad o bell, h.y. drwy ddefnyddio adnoddau telegynadledda neu fideo-gynadledda?**

| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 117 | 3 | 0 | 120 |
| 98% | 2% | 0% | 100% |

Daeth y sylwadau canlynol i law:

Croesawodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr y gwelliant hwn gyda llawer yn dweud bod hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod yr amgylchiadau presennol gan ei fod wedi sicrhau parhad busnes y corff llywodraethu ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Roedd llawer yn adleisio y byddai'n well parhau i gynnal cyfarfodydd 'corfforol’ lle y bo'n bosibl, gan gydnabod y gallai cyfarfodydd mynediad o bell fod yn ddewis amgen addas.

Dywedodd un ymatebydd yr hoffent weld isafswm rhagnodedig o gyfarfodydd 'mewn person', i warchod rhag gweld cyfarfodydd rhithwir yn dod yn norm. Gofynnodd un arall am eglurhad ynghylch a fyddai cymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir yn bosibl o dan y Rheoliadau newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ei bod yn fwy ac yn fwy cyffredin cynnal cyfarfodydd 'rhithiol' drwy fynediad o bell, gan ddefnyddio offer fideo a thelegynadledda. Mae adborth gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn dangos bod hyn wedi cael ei groesawu'n arbennig yn ystod pandemig Covid-19 parhaus ac mae wedi caniatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol barhau â busnes hanfodol. Nid oes unrhyw beth yn y rheoliadau presennol sy'n atal cyfarfodydd rhithiol, ond yr ydym yn manteisio ar y cyfle hwn i'w gwneud yn glir ei fod yn arfer a ganiateir.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn na fydd pob llywodraethwr yn gallu nac yn barod i gymryd rhan mewn cyfarfodydd mynediad o bell. Nod yr amodau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd rhithwir yw sicrhau bod consensws ar fformat cyfarfodydd a bod pob llywodraethwr yn gallu cymryd rhan.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhagnodi'r fformat ar gyfer cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Dylai cyrff llywodraethu ysgolion wneud eu penderfyniadau eu hunain am yr hyn sy'n gweithio iddynt yn seiliedig ar eu hamgylchiadau lleol eu hunain. Caniateir o dan y Rheoliadau diwygio i gyfarfodydd fod yn gymysgedd o rai wyneb yn wyneb a mynediad o bell, os yw hyn yn gweddu i anghenion y cyfarfod a phawb sy'n bresennol.

**Cwestiwn 5 – A ydych chi’n cytuno â’r amodau i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal drwy fynediad o bell?**

(1) bydd cyfranogwyr yn gallu cyflwyno sylwadau/cyflawni swyddogaethau yn llawn
(2) mae cyfranogwyr yn cytuno i gynnal y cyfarfod drwy fynediad o bell
(3) mae gan bob cyfranogwr fynediad i'r dulliau electronig sy'n eu galluogi i glywed/cael eu clywed, gweld/cael eu gweld
(4) gellir cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw.

| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 114 | 4 | 2 | 120 |
| 95% | 3% | 2% | 100% |

<u>Daeth y sylwadau canlynol i law:</u>

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Dywedodd nifer eu bod wedi cymhwyso'r amodau hyn yn llwyddiannus yn ystod cyfyngiadau’r pandemig Covid-19.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr amodau'n rhesymol, mynegodd rhai bryder bod nifer o lywodraethwyr nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

Diben yr amodau yw sicrhau bod consensws ar sut y cynhelir cyfarfodydd, a bod gan bawb sy'n cymryd rhan fynediad i'r dulliau electronig fel eu bod yn gallu cyflwyno sylwadau a chyflawni eu swyddogaethau yn llawn, gyda'r nod cyffredinol o sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd yn deg ac yn dryloyw. Mater i'r corff llywodraethu yw penderfynu sut y mae’n cynnal ei fusnes.

Pan gynhelir cyfarfodydd rhithwir, bydd angen ystyried yr offeryn cyfarfod a ddefnyddir yn seiliedig ar ei argaeledd i bob parti, ei ddiogelwch, a'i ymarferoldeb ar gyfer cynnal y busnes dan sylw.

**Roedd cwestiynau 6 a 7 yn gofyn am sylwadau ynghylch effaith y cynigion ar y Gymraeg, a sut y gellid eu newid i gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o’r Gymraeg.**

Daeth y sylwadau canlynol i law:

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod diffyg manylion penodol ynghylch disgwyliadau cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu amrywiaeth cyrff llywodraethu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n gyfrifol am benderfynu sut y cynhelir eu cyfarfodydd. Nid yw'r newidiadau a gynigir yn effeithio ar y trefniadau o ran yr iaith y cynhelir cyfarfodydd ynddynt, a ddylai fod yr un peth p'un a yw cyfarfod wyneb yn wyneb neu'n rhithwir. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ganlyniad i gynnal cyfarfodydd rhithwir. Nod yr amodau ar gyfarfodydd rhithwir yw sicrhau bod llywodraethwyr yn gallu cyfrannu'n effeithiol.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi sefydliadau, ac yn rhannu arfer gorau ar gynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog.

**Cwestiwn 8** – **Sylwadau ategol**

Dywedodd un ymatebydd y bydd defnyddio dulliau cyfathrebu o bell, rhithwir ac ar-lein yn cynyddu'n sylweddol y potensial i'r rheini ag anableddau, yn enwedig y rhai sydd â symudedd cyfyngedig, fod yn rhan o lywodraethu ysgolion a chyfrannu ato. Roedd un arall yn adleisio y gallai cyfarfodydd rhithwir ei gwneud yn haws i'r rhai mewn ardaloedd gwledig fynychu'n fwy rheolaidd.

Roedd un ymatebydd yn pryderu, pe bai mwy o gyrff llywodraethu'n dewis cynnal cyfarfodydd gan ddefnyddio technoleg, y gallai fod goblygiadau hyfforddi i lywodraethwyr a chlercod presennol y byddai angen i gonsortia rhanbarthol a/neu awdurdodau lleol fynd i'r afael â hwy.

Codwyd pryder am ddyfodol rôl clerc y corff llywodraethu ac a fyddai'n dal yn ofynnol ar gyfer cyfarfodydd rhithwir o'r corff llywodraethu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gan y cynigion ar gyfer cyfarfodydd rhithwir y potensial i gynyddu presenoldeb yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Mae manteision i bobl ag anableddau a/neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gan y gallai fod yn haws iddynt gymryd rhan mewn cyrff llywodraethu ysgolion heb fod angen bod yn bresennol yn gorfforol ym mhob cyfarfod.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i'w llywodraethwyr i'w galluogi i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi addasu eu gwasanaethau yng ngoleuni pandemig Covid-19 i sicrhau eu bod yn gyfredol ac y byddant yn gallu rhoi cyngor ar y technolegau diweddaraf ar gyfer cynnal busnes yn electronig.

Yn ogystal, mae llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru, Hwb, yn cynnig adnoddau am ddim i helpu cyrff llywodraethu ysgolion â mynediad digidol.

Mae rôl y clerc yn hanfodol i lwyddiant corff llywodraethu ysgol effeithiol ac mae'n parhau i fod yn ofynnol cael clerc. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyfforddiant i glercod yn orfodol. Nid yw'r Rheoliadau diwygio yn lleihau nac yn newid natur a phwysigrwydd y rôl hon.

## Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus. Dangosodd mwyafrif clir gefnogaeth i'r holl gynigion ac felly mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r cynigion fynd rhagddynt heb eu newid.

Bydd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael eu gwneud a'u gosod gerbron Senedd Cymru ar neu cyn 26 Tachwedd 2020. Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 18 Rhagfyr 2020.

## Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

- 34 Ysgol gynradd - llywodraethwyr a staff yr ysgol
- 17 Ysgol uwchradd - llywodraethwyr a staff yr ysgol
- 1 ysgol ganol - llywodraethwr
- 1 ysgol arbennig - llywodraethwr
- 1 ffederasiwn - llywodraethwr
- 10 Awdurdod Lleol
- Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (CGA)
- NASUWT
- UCAC
- Estyn
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Parentkind
- 56 o ymatebion gan unigolion, a phobl a oedd am aros yn ddienw